Law Commission
Reforming the law

***Dedfrydu***

Un pwnc yr awgrymwyd ei gynnwys yn yr 11eg Rhaglen oedd codeiddio deddfwriaeth ar ddedfrydu.. Cynhwysir y gyfraith bresennol mewn nifer fawr o statudau, gyda llawer ohonynt â gwahanol strwythurau a dulliau ac sydd wedi eu newid yn helaeth. Mae hyn yn gwneud y broses o ddedfrydu'n anodd ac yn cymryd llawer o amser ac yn cynyddu'r risg o gamgymeriad. Yr argymhelliad oedd i Gomisiwn y Gyfraith gydgrynhoi'r gyfraith bresennol mewn un statud, gan symleiddio lle bo angen ond heb gychwyn ar ddiwygiad sylweddol o'r mathau o ddedfryd neu eu hargaeledd. Yr awgrym oedd y byddai hyn yn gwneud y gyfraith yn haws i farnwyr ac ymarferwyr ei gweithredu ac yn fwy hygyrch i'r rhai heb arbenigedd cyfreithiol. Mae cymhlethdod yr ymarferiad presennol yn ychwanegu at amser a chostau treialon.

Roedd cefnogwyr yr argymhelliad yr adeg honno yn cynnwys academyddion, yr uwch farnwriaeth a'r Cyngor Dedfrydu. Pwyntiodd cynigwyr at nifer o apeliadau yn erbyn dedfrydau anghyfreithlon bob blwyddyn. Nid yw maint apeliadau o'r fath yn adlewyrchu gwir raddfa'r broblem gan i rai gael eu hunioni o dan y rheol llithriad ac nid ydynt yn cynhyrchu apeliadau, ac ni sylwir ar eraill.

Er nad oedd yr Arglwydd Ganghellor yn cefnogi'r prosiect o symleiddio/gydgrynhoi yn yr 11eg Rhaglen, fe fynegodd y gellid galw am brosiect o'r fath yn y dyfodol.

Mae gennym ddiddordeb mewn gwybod a yw'r rhai sy'n ymwneud â dedfrydu yn parhau i wynebu cymhlethdodau o'r fath mewn nifer sylweddol o achosion ac a oes angen clir am brosiect yn y 12fed Rhaglen i godeiddio a symleiddio cyfraith dedfrydu.